# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Lewis Pengam

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Lewis Pengam yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn groesawgar a chyfeillgar. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi ac mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r pennaeth, a'i uwch dîm arweinyddiaeth, yn arwain yr ysgol yn dda trwy gyfnod o newid, wrth iddynt baratoi ar gyfer pennod newydd ym mis Medi 2025. Mae'r ysgol wedi parhau i roi lles disgyblion a staff wrth wraidd ei gwaith. Mae'n galluogi pob disgybl i gyfranogi a llwyddo, beth bynnag fo'u cefndir a'u cyd-destun cymdeithasol a datblygu ystod o strategaethau gwerthfawr i gefnogi disgyblion a theuluoedd y mae tlodi yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyflawniad y disgyblion hyn. Ar y cyfan, mae'r gwaith i wella presenoldeb ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig.

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac, mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent oherwydd diffygion yn yr addysgu. Mae ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion hefyd yn llesteirio gwersi ac, yn yr achosion hyn, nid yw polisi ymddygiad yr ysgol yn cefnogi staff na disgyblion yn ddigon da. Mae dull sydd wedi'i gydlynu'n dda ar gyfer gwella medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg llafar yn ddigon da.

Mae cyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi'u rhannu'n rhesymol ar draws yr ysgol ac mae hyn wedi galluogi arweinwyr i flaenoriaethu eu gwaith yn effeithiol. Ochr yn ochr ag arweinwyr canol, maent yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ddigon craff bob tro ar effaith darpariaeth ar gynnydd disgyblion. Er bod y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol, nid yw strwythurau'r is-bwyllgorau yn ddigon clir nac effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, sy'n cyfoethogi eu haddysg. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau poblogaidd y bandiau roc a gweithgareddau chwaraeon. Mae'r ysgol yn teilwra ei gofal, cymorth ac arweiniad yn effeithiol ac yn darparu ystod eang o gyrsiau a llwybrau sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella addysgu a darparu cymorth strategol i athrawon ar reoli ymddygiad

A2 Mireinio gweithgareddau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio'n fanwl ar ddysgu a medrau disgyblion

A3 Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion

A4 Cryfhau strwythurau ac effeithiolrwydd llywodraethu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025